# ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# CYNGOR CYMUNED BRYNCRUG

## 2018/19

FFORDD GWYNEDD

RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD

*PUTTING **THE PEOPLE OF GWYNEDD** AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO*

# ARCHWILIAD MEWNOL
# CYNGOR CYMUNED BRYNCRUG

**1. Bwriad yr Archwiliad**

1.1 Bwriad yr archwiliad oedd adolygu trefniadau ariannol a llywodraethu'r Cyngor yn unol â ymarfer priodol fel yr amlinellir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/CCCLl " Llywodraethu ac atebolrwydd i gynghorau lleol yng Nghymru - Canllaw Ymarferydd (diwygiwyd Rhagfyr 2014)".

**2. Prif Ddarganfyddiadau**

2.1 Dengys yn Atodiad A yr amcanion rheolaethol a brofwyd ac a gafwyd yn foddhaol.

**3. Barn yr Archwiliad**

**Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Bryncrug ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:**

- **Methiant i adnabod a chynllunio yn erbyn risgiau'r Cyngor.**
- **Methiant i gadarnhau bod cysoniadau banc yn cael eu cynnal ar sail reolaidd ac yn amserol.**
- **Ble nad yw'r prisiad yswiriant asedau yn cytuno gyda'r gofrestr asedau, bydd methiant i hawlio yn erbyn yswiriant ar gyfer yr asedau hyn pan fo angen.**

**4. Cydnabyddiaeth**

4.1 Hoffai'r archwiliwr ddiolch i'r Clerc am y cymorth a'r cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad archwilio hwn.

Luned Fôn Jones

**LUNED FÔN JONES**
**Rheolwr Archwilio**
Mai 2018

**ATODIAD A**

## AMCANION RHEOLAETHOL A DARGANFYDDIADAU'R ARCHWILIAD

**Bod llyfrau cyfrifon priodol wedi 'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn**

- Llyfr arian yn cael ei gynnal a'i gadw'n gyfredol
- Llyfr arian yn rhifyddol gywir
- Llyfr arian yn cael ei gysoni'n rheolaidd

**Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.**

- Y Cyngor wedi mabwysiadu'n ffurfiol y rheolau sefydlog a'r rheoliadau ariannol
- Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ei benodi/phenodi gyda dyletswyddau penodol
- Eitemau neu wasanaethau uwchben y swm "de minimus" wedi eu caffael yn gystadleuol
- Taliadau yn y llyfr ariannol wedi eu cefnogi gydag anfonebau, wedi eu hawdurdodi ac yn y cofnodion
- Elfen TAW ar daliadau wedi ei adnabod, ei gofnodi a'i adhawlio
- Cyngor wedi cymeradwyo ac wedi cylchredeg i'r aelodau y trefniadau ar gyfer gwneud taliadau
- Gwariant rhan 137 wedi ei gofnodi ar wahân a thu fewn i'r cyfyngiadau statudol

**Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.**

- Adolygiad o'r cofnodion heb ddarganfod unrhyw weithgaredd ariannol anarferol
- Trefniadau yswiriant yn dderbyniol ac yn ddigonol
- Rheolaethau ariannol mewnol wedi eu dogfennu ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd

**Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.**

- Cyngor wedi paratoi cyllideb flynyddol i gefnogi'r braesept
- Gwir wariant yn erbyn y gyllideb yn cael ei adrodd i'r Cyngor
- Nid oes unrhyw wariant sylweddol na ellir ei egluro o'r gyllideb

**Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.**

- Incwm yn cael ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon
- Praesept a gofnodwyd yn cytuno gyda hysbysiad y Cyngor perthnasol
- Rheolaethau diogelwch dros arian a'i debyg yn ddigonol ac yn effeithlon

**Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaeth a gofynnwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.**

- Holl gyflogeion gyda chytundeb cyflogaeth gyda thermau ac amodau clir
- Cyflogau a delir yn cyd-fynd gyda'r hyn a gymeradwywyd gan y Cyngor
- Taliadau eraill a delir i gyflogeion yn rhesymol ac wedi eu cymeradwyo gan
- y Cyngor
- TWE/YG wedi eu gweithredu'n briodol gan y Cyngor fel cyflogwr

**Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn ac yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.**

- Cyngor yn cynnal cofrestr o asedau allweddol mae yn berchen neu yn gyfrifol amdanynt
- Cofrestr asedau a buddsoddiadau'n gyfredol

**Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.**

- Cysoniad banc yn cael ei baratoi ar gyfer pob cyfrif
- Nid oes unrhyw drafodyn nad oes eglurhad amdano wedi ei gynnwys yn y cysoniad
- Crynodeb o werth buddsoddiadau wedi eu cynnwys yn y cysoniad

**Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar sail cyfrifyddu cywir, roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan lwybr archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.**

- Cyfrifon diwedd blwyddyn yn cael eu paratoi ar sail cyfrifyddu cywir
- Cyfrifon yn cytuno â'r llyfr ariannol
- Trywydd archwilio o'r cofnodion ariannol a'r cyfrifon

**Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol).**

- Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr.

Bryncrug

Gwahaniaethau Sylweddol

| | | | Blwyddyn yn dod i ben | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 31/03/2017 | 31/03/2018 | Gwahaniaeth | Eglurhad |
| 1 | Balansau a ddygwyd ymlaen | Balances brought forward | 7,231 | 13,004 | 5,773 | |
| 2 | (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | (+) Income from local taxation/levy | 8,209 | 12,000 | 3,791 | cadw toiledau cyhoeddus ar agor |
| 3 | (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | (+) Total other receipts | 4,820 | 3,507 | -1,313 | |
| 4 | (-) Costau staff | (-) Staff costs | 1,905 | 2,907 | 1,002 | cynnwys costau teithio |
| 5 | (-) Llog ar fenthyciadau / ad-daliad cyfalaf | (-) Loan interest / capital repayments | - | - | | |
| 6 | (-) Cyfanswm taliadau eraill | (-) Total other payments | 5,351 | 10,729 | 5,378 | cynnal llwybrau cyhoeddus a cae chwarae |
| 7 | (=) Balansau a barhawyd | (=) Balances carried forward | 13,004 | 14,875 | 1,871 | |
| | | | | | | |
| 8 | (+) Dyledwyr a balansau stoc | (+) Debtors and stock balances | - | - | | |
| 9 | (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau | (+) Total cash and investments | 13,004 | 14,875 | 1,871 | |
| 10 | (-) Credydwyr | (-) Creditors | - | - | | |
| 11 | (=) Balansau a barhawyd | (=) Balances carried forward | 13,004 | 14,875 | 1,871 | |
| 12 | Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | Total fixed assets and long-term assets | 10,000 | 12,115 | 2,115 | bwrdd picnic a sleid cae chwarae |
| 13 | Cyfanswm benthyciadau | Total borrowing | - | - | | |